Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
Stryd Iago Isaf,
Pontarddulais, Abertawe, SA4 8JA
www.ysgolbryniago.co.uk
yggbryniago@bryniago.swansea.sch.uk
(01792) 882012
Pennaeth: Miss Nia Jones

**Hysbyseb swydd Cynorthwydd Dysgu Lefel 3**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago**

**Gradd 5 : Ystod pwyntiau 7-9**

**Ysgol/ School:** Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

Stryd Iago Isaf,

Pontarddulais,

Abertawe SA4

8JA

- **Dyddiad Dechrau/ Start Date:** 09.03.2026
- **Contract:** Parhaol

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Bryniago. Mae'n gwasanaethu tref Pontarddulais a phentrefi Garnswllt, Pontlliw a Waungron. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3- 11 mlwydd oed.

Gwahoddir ceisiadau gan gynorthwywyr brwdfrydig ac ymroddgar . Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddianus feddu ar y Gymraeg a bod yn barod i weithio fel rhan o dîm yr ysgol.

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan unigolion brwdfrydig, ymroddgar ac egnïol i ymgymryd â rôl Cynorthydd Dysgu Lefel 3 yn ein hysgol.

Bydd y rôl yn cynnwys:

- Cefnogi dysgwyr 3–7 oed ar draws y cwricwlwm
- Cydweithio'n agos ag athrawon ac aelodau eraill o'r tîm
- Cyfrannu at gyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel
- Derbyn cyfrifoldeb dosbarth ar adegau penodol
- Cefnogi lles, datblygiad a chynnydd disgyblion

Gan mai ysgol Gymraeg yw Bryniago, mae **sgiliau Cymraeg llafar a ysgrifenedig ardderchog yn hanfodol** ar gyfer y swydd hon.

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Â sgiliau rhyngbersonol rhagorol
- Yn frwdfrydig ac yn gallu ysbrydoli dysgwyr ifanc
- Yn meddu ar y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm proffesiynol
- Yn hyderus wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Yn barod i gyfrannu'n gadarnhaol at ethos a bywyd yr ysgol

Os oes gyda chi ddiddordeb yn y swydd yma gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen gais sydd wedi atodi isod, yn ogystal â llythyr byr yn amlygu eich cryfderau, eich doniau a'ch profiad a'u danfon at

ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk

Ffurflen gais - staff cefnogi a leolir mewn ysgolian (Word doc) [134KB]

Disgwylir i'r llythyron cais fod yn y Gymraeg.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 23.02.2026 (ganol dydd)

**Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal ar:** I'w gadarnhau

**Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod a fydd yn dechrau :** 09.03.2026

Mae'r swydd hon yn amodol ar Wiriad Uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Mae'r swydd uchod ar gyfer cynorthwyydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago (ysgol cyfrwng Cymraeg) y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol iddi.